OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 2532 (Cy.247) (C.94)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003

Wedi'i wneud - - 1 Hydref 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddir iddo gan adran 43(6) a (7) o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'n dweud fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig pan ddaw'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn i rym yw 8 Hydref 2003.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

1 Hydref 2003

(**1**) 2001 p.10.
(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Erthygl 4

DARPARIAETHAU YN DOD I RYM AR 8 HYDREF 2003

Y Ddarpariaeth	Y Pwnc
Adran 14	Strategaethau a chynlluniau hygyrchedd
Adran 15	Strategaethau a chynlluniau hygyrchedd: gweithdrefn
Adran 22 (i'r graddau y mae'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfarwyddiadau o dan adran 28M(1) neu (3) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 neu yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyfarwyddyd o'r fath)	Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad Cenedlaethol

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym yng Nghymru ar 8 Hydref 2003 weddill darpariaethau Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 nad ydynt mewn grym yng Nghymru ar ddyddiad y Gorchymyn hwn, fel na fydd angen Gorchymyn pellach mewn perthynas â Chymru.

Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau mewn perthynas â strategaethau a chynlluniau hygyrchedd, o dan ddarpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf (gwahaniaethu ar sail anabledd mewn addysg).

Mae'r darpariaethau hefyd yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfarwyddiadau i awdurdodau addysg lleol ynghylch cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â strategaethau a chynlluniau hygyrchedd neu i wneud darpariaeth mewn perthynas â chyfarwyddiadau o'r fath.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau canlynol Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

Y Ddarpariaeth	**Y Dyddiad cychwyn**	**Rhif O.S.**
Adran 10 (yn rhannol)	8 Rhagfyr 2001	2001/3992 (C. 127)
Paragraffau 3 ac 14 o Atodlen 1 (yn rhannol)	8 Rhagfyr 2001	2001/3992 (C. 127)
Adran 1 (yn rhannol)	21 Ionawr 2002	2002/74 (Cy.8) (C.1)
Adran 8 (yn rhannol)	21 Ionawr 2002	2002/74 (Cy.8) (C.1)